

PWERU'R DYFFRYN

ADNODDAU LLEOL I BWERU'N ECONOMI LEOL
LOCAL RESOURCES TO POWER OUR LOCAL ECONOMY

Syniadau ar gyfer Cywain Syniadau

Syniad 1 – Holi drwy'r Holiadur

Posibiliadau...

- Mynd o ddrws i ddrws – llenwi'r holiadur 'Ein Syniadau / Our Ideas' ar y rhiniog / gadael yr holiadur i'w gasglu drannoeth
- Gosod yr holiadur mewn mannau cyhoeddus (cownter siop, tafarn, syrjeri, capel ac eglwys ac ati)
- Trefnu bore coffi / noson gymdeithasol yn unsydd ar gyfer cyflwyno a chyd-lenwi'r holiadur

Syniad 2 – Cylch y Sgyrsiau Bach

- Gwahodd cylch o bobl i gwrdd dros baned / beint
- Cael pawb i gofnodi eu presenoldeb
- Cyflwyno PWERU'R DYFFRYN iddynt
- Trafod y tri chwestiwn –
 - 1. Oes yna ffordd o gynhyrchu ynni cynaliadwy fydddech chi ddim ise yn y gymdogaeth hon - hyd-yn-oed mai ni'n hunain fyddde'n ei berchen?**
 - 2. Pa ffyrdd o gynhyrchu ynni cynaliadwy y'ch chi'n meddwl alle fod yn syniad da i ni ddatblygu'n hunain ar gyfer ffor' hyn?**
 - 3. Pe bydden ni'n cynhyrchu ein ynni ni'n hunain, siwt allen ni ddefnyddio'r incwm fydden ni'n ei gynhyrchu er lles economaidd y gymdogaeth hon?**
- Cofnodi ar y daflen cywain yr ymateb i bob cwestiwn o ran consensws neu ddiffyg consensws a sylwadau neu awgrymiadau diddorol
- Gwahodd pawb sydd ynghyd i gynnal eu sgwrs eu hunain dros baned / beint
- Penderfynu ar ddyddiad i gwrdd eto i gyd-drafod y syniadau a gasglwyd ynghyd

Syniad 3 – Y Sgwrs Syniadau

- Gwahodd pawb a phob un i Sgwrs Syniadau (noson wythnos waith / bore/pnawn dydd Sadwrn) mewn man cyfarfod addas a chysurus
- Ymlaen llaw: gwneud yn siŵr fod y stafell gyfarfod heb ei drefnu yn y modd 'Ni' a 'Nhw' arferol ac y bydd modd i bawb sy'n bresennol greu cylchoedd bach o drafod.
- Gwneud yn siŵr fod pawb yn cofnodi eu presenoldeb
- Cyflwyno PWERU'R DYFFRYN iddynt
- Eu gwahodd i ffurfio'r cylchoedd trafod (dim mwy na 5 / 6 mewn unrhyw gylch)



PWERU'R DYFFRYN

ADNODDAU LLEOL I BWERU'N ECONOMI LEOL LOCAL RESOURCES TO POWER OUR LOCAL ECONOMY

- Rhoi ffurflen adborth i bob grŵp a chael un person i weithredu'n gofnodwr ar ran y grŵp
- Cyflwyno cwestiwn 1 a 2 gyda'i gilydd iddynt, sef...
 - 1 Oes yna ffordd o gynhyrchu ynnu cynaliadwy fydddech chi ddim ise yn y gymdogaeth hon - hyd-yn-oed mai ni'n hunain fyddde'n ei berchen?**
 - 2 Pa ffyrdd o gynhyrchu ynnu cynaliadwy y'ch chi'n meddwl alle fod yn syniad da i ni ddatblygu'n hunain ar gyfer ffor' hyn?**
- Heb arfarnu, gwahodd un ar ran pob grŵp i adrodd yn ôl a chywain y prif bwyntiau ar fflip-fwrdd
- Cyflwyno'r cwestiwn olaf, sef...
 - 3 Pe bydden ni'n gynhyrchu ein ynnu ni'n hunain, siwt allen ni ddefnyddio'r incwm fydden ni'n ei gynhyrchu er lles economaidd y gymdogaeth hon?**
- Unwaith eto - ac heb arfarnu - cywain yr ymatebion
- Esbonio'r cam nesaf, sef...
 - ymatebion pob cylch trafod yn cael eu cywain ynghyd
 - y syniadau ynni cynaliadwy yn cael eu cyflwyno i arbenigwyr ynni cynaliadwy am eu hymateb
 - cynnal ail Sgwrs Syniadau ym mhob cymdogaeth ar sail ymateb yr arbenigwyr i'n syniadau (Medi/Hydref)

Cymorth, Cefnogaeth ac Arweiniad

- CYFLWYNIAD I FFYRDD O GYNHYRCHU YNNI CYNALIADWY...
- CANLLAWIAU SIWT MAE CYNNWYS PAWB TRA'N ARWAIN YN HYDERUS TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG...
- RHESTR O'R HOLL GYMDOGAETHAU SY'N CYMRYD RHAN O BWERU'R DYFFRYN...
- CYFLWYNIAD I DDYFFRYN AERON HEDDI - PWY SY'N BYW YMA? BLE Y'N NI'N GWEITHIO? BLE Y'N NI'N BYW? ac ati...
- COPÏAU O FFURFLENNI COFNODI PWY SY'N BRESENNOL / YMATEB I'R SGWRS FACH NEU'R SGWRS SYNIADAU / YR HOLIADUR 'EIN SYNIADAU'...
- CYFLWYNIAD CYFFREDINOL I GYNLLUN PWERU'R DYFFRYN...

...gwefan www.dyffrynaeron.cymru



PWERU'R DYFFRYN

ADNODDAU LLEOL I BWERU'N ECONOMI LEOL LOCAL RESOURCES TO POWER OUR LOCAL ECONOMY

- Ymholiadau o ddydd i ddydd – Swyddfa Gweithgor Dyffryn Aeron, Uned 2, Bryn Salem, 01570 471500

